YR EGLWYS YNG NGHYMRU

THE CHURCH IN WALES

**CORFF LLYWODRAETHOL YR EGLWYS YNG NGHYMRU**

# Aelodaeth a Chyllid 2018









# CYNNWYS


Cyflwyniad ........ 01
Gwasanaeth Pentecost ar y Cyd ym Môn ........ 02
Mudiadau Iwnifform @ Sant Tomos ........ 03
Arloesi yn Llanidloes ........ 04
Cymun i Siopwyr yn Rhydaman ........ 05
Caffi Eglwys @ Llanddunwyd ........ 06
Curad Newydd yn Llai ........ 07

**Crynodeb Ystadegol 2018**
Aelodaeth ........ 08
Cyllid ........ 09
Sut mae'r Eglwys yng Nghymru'n cael ei hariannu? ........ 11



**Gellir cael rhagor o gopïau o'r adroddiad hwn gan:**

**Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru,**
**2 Sgwâr Callaghan, Caerdydd. CF10 5BT**

**Ffôn: 029 2034 8200**

**E-bost: information@churchinwales.org.uk**

**Gwefan: www.churchinwales.org.uk**

**Rhif Elusen Gofrestredig 1142813**

**Argraffwyd ar bapur a ailgylchwyd 100%**


**Ffotograffau'r clawr blaen:**

| | |
|---|---|
| *chwith uchaf:* | Eglwys Sant Mihangel, Rhydaman. |
| *chwith gwaelod:* | Clwb allgymorth plant, Eglwys Sant Martin, Llai. |
| *canol:* | Eglwys Caffi, Eglwys Sain Dunwyd, Llanddunwyd. |
| *de uchaf:* | Gwasanaeth ar y cyd Synod Ynys Môn. |
| *de canol:* | Clwb Ar Ôl Ysgol, Neuadd yr Eglwys Llanidloes. |
| *de gwaelod:* | Gwasanaeth carolau gydag asynnod go iawn yn Eglwys Sant Thomas. |

# CYFLWYNIAD

**Croeso i adroddiad Aelodaeth a Chyllid 2018 ar gyfer yr Eglwys yng Nghymru.**

Eleni, rydym yn gyffrous ein bod ni'n gallu rhannu straeon o bob cwr o Gymru i ategu'r crynodeb arferol o ystadegau. Ers nifer o flynyddoedd roeddem yn ymwybodol bod yr adroddiad ystadegol yn ganllaw annigonol i fywyd cyfoethog yr eglwys ar draws y dalaith er ei fod yn ddangosydd defnyddiol o gyflwr yr Eglwys flwyddyn ar ôl blwyddyn. Gobeithio y bydd yr adroddiad ar ei newydd wedd yn gam i'r cyfeiriad cywir i unioni'r anghydbwysedd hwnnw.

Yn 2018, ymrwymodd Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru i efengylu a thwf fel ei dwy flaenoriaeth. Mae'r data plwyfi ar gyfer 2018, sydd i'w weld o dudalen 8 ymlaen, yn dangos brys y gwaith hwnnw. I grynhoi, mae'r ffigurau'n dangos:

- Gostyngiad parhaus ym mwyafrif mesurau cyfranogiad bywyd plwyfi (Tabl Gwybodaeth 1, tudalen 8);
- Amrywiadau anarferol heb eu hegluro o ffigurau 2017 mewn rhai meysydd (-19% mewn presenoldeb dyddiol oedolion, +30% yn nifer y conffyrmasiynau);
- Gostyngiad mewn cyfanswm cyfraniadau ar draws yr holl gategorïau (Tabl Gwybodaeth 2, tudalen 9) sy'n gysylltiedig â'r gostyngiad mewn presenoldeb, er bod yna gynnydd mewn cyfraniadau fesul mynychydd (Ffigur Gwybodaeth 3, tudalen 10);
- Bod yna ostyngiad mewn gwariant yr un pryd â gostyngiad mewn incwm plwyfi, wrth i blwyfi leihau eu gwariant i gyfateb i'w cyllideb.

Mae'n rhaid cofio bod y ffigurau hyn yn gyfansymiau talaith, ac felly'n cuddio'r amrywiadau (cadarnhaol a negyddol) ymysg ein hardaloedd gweinidogaeth a chenhadaeth, a phlwyfi.

Mae hefyd yn bosibl i ymdreiddio i'r categorïau presenoldeb i chwilio am arwyddion o obaith. Er enghraifft:

- Cynyddodd presenoldeb ar y Sul rhwng 2017 a 2018 mewn nifer o feysydd pwysig: plant o dan 7 oed; plant 7 i 10 oed; pobl ifanc 11 i 17 oed; a theuluoedd.
- Yn ogystal, cynyddodd y nifer a oedd yn mynychu "dulliau addoli anhraddodiadol" o 21,984 y mis yn 2017 i 41,155 y mis yn 2018. Byddwn yn gofyn cwestiynau newydd yn ffurflen aelodaeth y flwyddyn nesaf i gasglu gwybodaeth fanylach am beth sy'n digwydd ar lawr gwlad yn y maes allweddol hwn.

Ond mae'r prif reswm i fod yn hapus i'w weld yn y straeon rydym wedi'u cynnwys yn adroddiad eleni, sydd wedi'u casglu o brosiect ymchwil ehangach a gynhaliwyd gan Athrofa Padarn Sant. Mae'r astudiaethau achos hyn yn cynrychioli trawstoriad bychan o'r ystod eang o fentrau newydd cyffrous sy'n datblygu ledled Cymru, ond maent yn enghreifftiau o'r hyn y gellir ei gyflawni drwy wneud newidiadau dychmygus ond posibl eu cyflawni o fewn cymuned eich eglwys, waeth beth fo maint, adnoddau neu gyd-destun eich plwyf. Gobeithio y byddant yn eich ysgogi chi i ystyried beth ellir ei gyflawni yn eich plwyf neu'ch ardal weinidogaeth chi, a'ch ysbrydoli i weithredu. Bydd adroddiad llawn ar yr astudiaethau hyn, gyda dadansoddiadau o'r gwersi y gellid eu dysgu o bob profiad, yn cael ei gyhoeddi gan Athrofa Padarn Sant maes o law, felly cadwch lygad allan amdano.

I gloi, mae'n rhaid i ni ddiolch i glerigion, swyddogion plwyfi a staff esgobaethau am sicrhau bod cyfran uchel o ffurflenni plwyfi'n cael eu cwblhau a'u cyflwyno ar amser bob blwyddyn. Rydym yn cydnabod bod yr ymarfer hwn yn rhoi straen weinyddol ychwanegol ar bobl sydd eisoes yn brysur, ac rydym yn parhau i weithio ar ffyrdd o wneud y dasg honno'n haws drwy'r porth ar-lein. Ond mae'r data rydych chi'n ei ddarparu'n amhrisiadwy i sicrhau bod ein cynlluniau ar gyfer dyfodol yr Eglwys – o ran gweinidogaeth, strwythurau a chyllid – yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Rydym yn gobeithio cyflwyno cyfleusterau newydd yn y flwyddyn hon i helpu plwyfi ac ardaloedd gweinidogaeth i wneud defnydd gwell o'ch data hefyd.

# GWASANAETH PENTECOST AR Y CYD YM MÔN

**9 Mehefin, a'r haul yn disgleirio ar Faes Sioe Môn, dyma lifeiriant o geir yn cyrraedd. Fe'n cyfarchwyd gan wraig mewn siaced lachar - doedd hi ddim yn cofio iddi wirfoddoli i fod ar ddyletswydd yn y maes parcio ond roedd yn mwynhau'r profiad beth bynnag. Mae cannoedd o bobl yn prysur lenwi sied a ddefnyddir ar gyfer gwartheg yn y sioe yn aml. Dyma ni wedi cyrraedd gwasanaeth ar y cyd Synod Môn.**

Mae'r cyflwyniad yn ein hatgoffa mai dyma wasanaeth y Pentecost lle'r oedd y disgyblion "oll ynghyd yn yr un lle". Dyma'r cefndir ar gyfer y cynulliad hwn. Ar ôl rhoi cyfarwyddiadau diogelwch, cyhoeddir y trefniadau ar gyfer derbyn y cymun a phryd a lle y bydd cyfle i ddod ymlaen i dderbyn gweddi. Mae'r cyfan yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yna cododd dros 300 o bobl i ganu'r emyn cyntaf, yr "Emyn Agoriadol"

O ran litwrgi, mae'n draddodiad bod y gwasanaeth hwn yn cael ei gynnal yn ddwyieithog, ond mae hefyd yn cwmpasu'r gwahanol genedlaethau. Mae'r plant yn mynd a dod yn ddiffwdan, yng nghornel y plant maen nhw'n gwneud penwisgoedd fel fflamau tân, neu rubanau tân, weithiau'n canu ac weithiau'n eistedd gyda'u rhieni. Does dim rhaniadau yma, nid yw'r plant a'r bobl ifanc yn cael eu rhoi mewn grwpiau ar wahân. Nid dim ond pobl yn ymgynnull mewn un lle yw hyn, ond hefyd pobl o bob oed.

Ar ôl y gyffes a maddeuant pechodau cyflwynir emyn arall, "Bless the Lord oh my soul." Mae'r sied wartheg dan ei sang yn sain y lleisiau Cymreig a chyfeiliant y gitarau, yr allweddell, y drymiau, y fiolín a'r trymped. Wrth i ni ganu'r emyn nesaf "Shout to the Lord all the Earth let us sing" mae'r trymped yn seinio'n fuddugoliaethus yn y dathliad hwn o'r Pentecost pan dywalltodd Duw ei Ysbryd ar bawb. Pob oed, pob cefndir, o bob haen o gymdeithas, Cymraeg a Saesneg. Wn i ddim a glywodd holl drigolion y ddaear, ond yn sicr roedd pawb a ddaeth i'r sêl cist car gerllaw wedi clywed. Mi wn hynny, achos yn ystod y darlleniad o'r efengyl daeth nifer o bobl atom o'r sêl cist car a gofyn am gael ymuno yn y gwasanaeth. Efengylu hwylus a hawdd dros ben!

Nesaf cyflwynodd Archddiacon Môn ei bregeth, gan weu'r Gymraeg a'r Saesneg ynghyd yn fedrus, a chyhoeddi'r neges ganlynol:

> Ar ddiwrnod y Pentecost, daeth llai o bobl ynghyd nag sy'n bresennol yma heddiw i weddïo. A daeth yr Ysbryd. A throes miloedd i ddilyn Iesu y diwrnod hwnnw. Sut olwg fyddai ar bethau heddiw pe buasem ni'n cael ein llenwi â'r Ysbryd ac yn mentro'n ôl i bob cwr o Fôn? Nid yw'n amser i ofni a gofidio, mae'n amser i ni fod gyda'n gilydd gan adael i'r Ysbryd Glân adnewyddu ac adfywio Ei Eglwys.

Yna, gweinyddwyd y Cymun ac ar ôl cymryd y bara a'r gwin ymgasglodd llawer i dderbyn gweddi a thywalltiad o'r Ysbryd Glân. Ac i gael eu llenwi.

Wythnos nesaf, hwyrach y bydd y bobl hyn yn addoli eto mewn cynulleidfaoedd llawer llai, ond am y tro, maen nhw wedi cael eu hatgoffa'n ogoneddus fod yr Eglwys Anglicanaidd yn fyw iawn ar Ynys Môn.



## MUDIADAU IWNIFFORM @ SANT TOMOS

**Mae'n fin nos ar ddechrau Rhagfyr - mae'n noson oer a gwlyb yn un o ardaloedd llai cefnog Abertawe. Mae siop gerllaw gyda hanner dwsin o bobl ifanc yn eu harddegau'n llechu y tu allan. Saif eglwys San Steffan ar ganol y stryd brysur hon. Mae'r ficer a'i wraig (y ddau'n ordeiniedig) wedi bod yn cynnal y weinidogaeth hon ers pum mlynedd. Mae'r eglwys wedi'i haddurno â goleuadau a choeden Nadolig. Mae pawb sy'n bresennol yn falch fod y gwres ymlaen felly mae'r eglwys yn glyd a chynnes. Yn eistedd ar gadeiriau ym mhrif gorff yr eglwys mae rhyw 30 o blant 5 i 8 oed. Dyma'r grŵp iau.**

I ddechrau, defnyddir cyfrwng i dorri'r ia. Mae'n rhaid iddyn nhw baru eu cardiau â cherdyn rhywun arall. Wedyn, yng nghefn yr eglwys maen nhw'n mynd ati i wneud Cardiau Nadolig. Mae digonedd o gardiau, glud, peniau lliw a deunydd pwrpasol ar gael. Mae'r ficer yn awyddus i'r plant hyn ddeall bod Duw yn eu caru. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae wedi eu dysgu nhw i edrych yn y drych cyn mynd i'r gwely a dweud y geiriau "Mae rhywun yn fy ngharu." Fel rheol, bydden nhw'n newid i waith defosiynol ar yr adeg hon, ond heno byddan nhw'n sôn am y Nadolig, yn arbennig yr hyn maen nhw'n gobeithio ei gael yn anrheg Nadolig. "Poop emoji!", "Slush maker", "gwely bync i'r doliau", mae llawer o chwerthin a thrafod.

Ond law yn llaw â'r chwerthin mae yna heriau hefyd. Wrth imi eistedd yn y cefn, a rhiant newydd ollwng ei phlentyn ar gyfer y gweithgaredd, rwy'n ei gweld yn gofyn am fwyd am nad oes ganddi ddim byd gartref. Mae'n gofyn am bapur tŷ bach hefyd am ei fod yn rhy ddrud iddi allu fforddio ei brynu. Mae chwaer 14 oed un o'r merched sy'n bresennol wedi ceisio lladd ei hun yn ddiweddar. Dyma'r math o heriau mae'r tîm yn eu hwynebu. Ond yr adeilad cynnes hwn yw eu noddfa nhw. Tangnefedd mewn byd o anrhefn. Daw rhiant yn gynnar i gasglu ei ferch, ond nid yw'n rhuthro oddi yno. Mae'n cael croeso ac mae'n edrych yn gartrefol yn yr adeilad.

Pan ddaw'r chwerthin i ben, anfonir y grŵp i gefn yr eglwys i addurno bisgedi. Mae carolau Nadolig yn llenwi'r lle, ac mae'n amlwg bod y plant yn mwynhau eu hunain. Dyma'r cyhoeddiadau i orffen: "Nos Iau byddwn yn cynnal y gwasanaeth Cristingl i chi i gyd, a chofiwch am ein gwasanaeth carolau ddydd Sul nesaf, lle bydd gyda ni asynnod go iawn."

Mae un weddi i gloi, gyda'r ficer yn rhoi diolch am y plant i gyd, ac am eu teuluoedd gan ofyn am fendith Duw ar holl weithgarwch y Nadolig. Ond, cyn gadael mae'n rhaid dathlu rhai pen-blwyddi, yn Gymraeg a Saesneg wrth gwrs, ac ar ôl casglu eu cardiau sydd wedi'u haddurno mor odidog, mae pawb yn gadael ac eglwys San Steffan yn dawel unwaith eto.

Dyma'r Boy's Brigade, yn swyddogol Boys Brigade & Girls Association. Fe'i cynhelir yma bob dydd Mercher rhwng 6pm a 9pm gyda grwpiau o amrywiol oedran. Ond dim ond un elfen fach o'r ymgysylltu cymunedol yw hwn sy'n canolbwyntio ar boblogaeth fawr mewn ardal fach. Nid yw'r ficer yn gallu cerdded o gwmpas y siopau lleol heb fod pobl yn dod ato i ysgwyd llaw a phlant yn gofyn am high five. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae cynulleidfa'r Sul wedi cynyddu o 11 i 40. Ond bellach mewn wythnos arferol mae'r eglwys hon yn cyflwyno cariad Duw i dros 1200 o bobl. Mae'r ffigur hyd yn oed yn uwch ar gyfer digwyddiadau arbennig fel y Nadolig, y Pasg a gwyliau'r haf.

Mae hyn yn gyffrous. Ond beth fyddai'n digwydd dros Gymru gyfan pe bai'n heglwysi i gyd yn gwneud hyn?



# ARLOESI YN LLANIDLOES

**Mae'n 3:30 ar brynhawn Gwener yn neuadd yr eglwys yn Llanidloes. Daw ugain a mwy o blant yn syth o'r ysgol i wneud gweithgareddau ar ôl ysgol – creu pethau o bren, lliwio a thorri, a'r cyfan yn fwrlwm cyffrous.**



Mae yna fentrau newydd pwysig ar waith yn Llanidloes: Noddfa – cymuned genhadol newydd; gweinidogaeth gaplaniaeth i'r farchnad ffermwyr; y Labordy Hapusrwydd; a phob math o fentrau creadigol hyfryd. Ond yma, mae'r ffocws ar nos Wener. Mae'r Clwb Ar Ôl Ysgol yn dangos pa mor bwysig yw gweithio gyda'r hyn sy'n bodoli'n barod, yn ogystal â chreu llu o bethau newydd. Wyth mlynedd yn ôl, penderfynodd criw o rieni sefydlu clwb gwyliau ar gyfer eu plant eu hunain, a phan ddaeth offeiriad newydd ychydig flynyddoedd yn ddiwedarach fe droes hynny'n ddigwyddiad wythnosol.

Am 4 o'r gloch darperir byrbrydau ac fe glywch chi sgyrsiau llawen yn llenwi'r ystafell. Heddiw mae'r sgwrs yn troi o gwmpas pwy enillodd yr Eisteddfod yn yr ysgol heddiw – y tîm glas mae'n debyg. Mae rhai o'r aelodau hŷn yn mynd â'u bwyd i'r llawr gwaelod. Dyma'u lle arbennig nhw i greu grŵp newydd ar wahân i'r plant i bontio rhwng y grŵp ieuenctid a'r grŵp plant. Mae pontio'n bwysig bob amser, ac mae'n galondid gweld y broses bontio yn datblygu. Ymhen hanner awr mae'n amser dod ynghyd ar y llawr i adolygu rhifyn diwethaf o "Rocky's Plaice", sy'n adnodd fideo gan Undeb yr Ysgrythur.

"Rhowch eich llaw i fyny os allwch chi ddweud wrtha i beth ddigwyddodd wythnos diwethaf", yw cais un o'r arweinwyr.

"Roedd tân arbennig oherwydd yr Ysbryd Glân ac roedd wedi helpu disgyblion Iesu i siarad am Dduw", meddai un o'r plant.

Ar y pysgodyn roedden nhw wedi'i dorri allan ar y dechrau, roedd y gair ICTHUS ac mae pwysigrwydd y gair hwnnw'n cael ei egluro yn awr. Wedyn, ar ôl diffodd y golau, mae'n amser gwylio'r rhifyn nesaf. Mae pawb yn eistedd i wylio anturiaethau'r Chip Shop Church a'r hanes hyfryd am Pedr ac Ioan yn iachau'r dyn wrth y porth. I orffen, mae pawb yn gwrando ar y stori'n cael ei hadrodd eto, y tro hwn o'r Beibl. Mae pawb yn gwrando'n astud ac yna'n trafod y cwestiwn sut oedd y dyn yn teimlo cyn dod i gysylltiad â phŵer Duw, a sut oedd yn teimlo ar ôl hynny. Mae llawer o syniadau'n cael eu cyfrannu, a'r plant yn eistedd mewn cylch ac yna'n offrymu gweddiau. Mae llawer o'r plant yn gweddio'n gyhoeddus dros bobl maen nhw'n eu hadnabod. Erbyn 5:15, mae'r sesiwn ar ben a daw'r rhieni i gasglu eu plant. Mae cyfle i gynnig gwahoddiadau i weithgareddau eraill ac i sgwrsio â'r rhieni/gwarchodwyr. Mae'n amlwg bod y rhieni'n gwbl gyffyrddus er mai prin yw'r rhai sy'n mynychu'r eglwys o Sul i Sul. Dyma'r cysylltiad cyntaf ag eglwys i lawer o'r rhieni hyn. Ond mae'n rhaid i'r daithat Iesu ddechrau'n rhywle.




Pan fydd y Clwb Ar Ôl Ysgol yn cwrdd, ar yr ochr arall i'r stryd ger Neuadd y Dref uwchben swyddfa'r eglwys mae grŵp ieuenctid yn cyfarfod. Grŵp ieuenctid traddodiadol yw hwn, gyda gweithgareddau i dorri'r ia ac astudiaeth Feiblaidd. Yr wythnos hon trafodwyd 'cariad anhygoel Duw' - bywyd o gariad, 1 Corinthiaid 13 a Mathew 5:43-48. Ond mae'r cyfan mewn awyrgylch o hwyl – yn cynnwys sgetshis drama hwyliog. A daw'r noson i

ben gyda gêm o Quirk! Gêm gardiau go anarferol ac mae pawb yn ei mwynhau.

Ar y diwedd, mae'r arweinydd yn sôn am fynd i wersylla dros y Pasg – Gwylnos y Pasg. Ac yn ddiweddarach yn y flwyddyn byddan nhw'n mynd i wersyll Bywyd Ifanc. Ar y diwedd mae pawb yn cael eu hannog i ysgrifennu nodyn mewn amlen i ddweud beth hoffen nhw ei drafod yn y dyfodol. Grŵp reit fach yw hwn, gydag wyth o bobl ifanc, ac mae dau ohonynt yn fynychwyr selog yn yr eglwys. Mae'r arweinydd yn eu hatgoffa bod y grŵp wedi dechrau trwy ddweud yn glir nad oedd Duw yn bodoli ond eu bod yn awr wedi symud ymlaen gryn dipyn i ystyried sut beth ydyw Duw.

A dyma orffen y noson ar drywydd anfwriadol ond nid annisgwyl sef trafod y gêm rhwng Cymru ac Iwerddon yr wythnos ddiwethaf.

Mae yna rai mentrau yn Llanidloes na fyddai wedi digwydd mae'n debyg oni bai am offeiriad arloesol - dyna pam mae'r Eglwys yng Nghymru wedi ymrwymo i'r weinidogaeth hon. Ond mae gweithgareddau nos Wener yn bethau y gallai pob eglwys eu cynnal. Maen nhw'n gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau plant a phobl ifanc sy'n eu mynychu, ac wrth gwrs i fywydau eu rhieni - dyma yw bod yn ddisgybl.

## CYMUN I SIOPWYR YN RHYDAMAN

**Mae'n fore Mercher oer a glawog, ac awyr lwyd dros Rydaman. Ond nid yw'r tywydd yn lladd dim ar ysbryd y gynulleidfa o 30 o bobl a ddaeth ynghyd yn San Mihangel, eglwys o fewn tafliad carreg i'r stryd fawr. Y cymun canol wythnos yw hwn. 60 a mwy yw'r oed cyfartalog. Nid yw gwasanaeth modern yn apelio – gwell ganddynt Wasanaeth Ewcharist 2004 syml heb elfen o gân.**

Byddai'n demtasiwn dweud bod hyn wedi parhau trwy gyfnod interregnum gan un o'r Gweinidogion Lleyg Trwyddedig (Lleygion). Ond ni fyddai hynny'n cyfleu rôl y Gweinidog Lleyg a'r gynulleidfa yn ystod yr interregnum. Roedd y gwasanaeth hwn wedi datblygu a thyfu yn ystod yr interregnum, gan danseilio'r syniad bod eglwysi'n cloffi wrth aros am eu ficer nesaf.

Nid yw hanner y gynulleidfa'n gallu cyrraedd gwasanaethau'r Sul. Nid oes unrhyw gludiant cyhoeddus. Felly, dydd Mercher yw eu lle a'u hamser nhw i gyd-addoli. Nid yw'r gwasanaeth canol wythnos traddodiadol yn gofyn am lawer o ymdrech – ac fel y profodd y gynulleidfa, nid oedd angen offeiriad i'w ddatblygu. Ond mae'n wasanaeth poblogaidd - dyma'r gwasanaeth mwyaf a gynhelir yn San Mihangel bob wythnos. Ac mae'r sawl sy'n mynychu wedi dysgu sut i'w wneud yn ddiwrnod arbennig. Cymun yn y bore, amser i gymdeithasu gyda ffrindiau ar ôl y gwasanaeth, paned o goffi yn y Cwtsh wedyn ac yna'r prynhawn pensiynwyr yn y dafarn leol. Does dim byd arbennig o newydd yma. Y cryfder yw dod i adnabod y gymuned a darparu ar ei chyfer.



# CAFFI EGLWYS @ LLANDDUNWYD

**Saif Eglwys San Dunwyd ym mhentref tlws Llanddunwyd. Tua 500 o bobl sy'n byw yno. Mae gwasanaethau'r eglwys yn eithaf confensiynol am y rhan fwyaf o'r mis. Cymharol isel yw'r presenoldeb gyda'r proffil oed yn gymharol uchel. Ond unwaith y mis, ar y Sul cyntaf, mae'r niferoedd a'r ddemograffeg yn newid yn ddirfawr.**

Yng ngeiriau'r Warden, Siân Evans:

> *"Roedd dyfodol yr Eglwys yn Llanddunwyd yn dibynnu'n fawr ar ddatblygu cysylltiadau â'r ysgol ac â phlant ac oedolion cymuned leol y pentref. Felly fe ddechreuon ni Eglwys a chaffi i ddatblygu'r cysylltiadau hynny ac i annog a datblygu gwaith rhwng y cenedlaethau gydag aelodau cyfredol hŷn y gymuned o addolwyr rheolaidd a thu hwnt."*

Felly penderfynwyd cynnal Caffi Eglwys yn lle'r gwasanaeth Sul boreol arferol dan arweiniad gweinidog lleyg ar yr ail Sul o'r mis. Yn ddiweddar mae curad ac ordinandiaid Padarn Sant wedi bod yn arwain y gwasanaethau ond mae'r hyblygrwydd wedi parhau a gall gweinidog lleyg ei arwain yn gwbl ddidrafferth.



Mae Caffi Eglwys yn cynnig cyfle ar gyfer addoliad amlgenhedlaeth ac yn gyfle i blant gael rhan weithredol yn hytrach na bod yn gyfranogwyr goddefol yn y gwasanaeth. Mae Caffi Eglwys yn cynnwys cyfle ar gyfer gweddïau a darlleniadau, cyfle i fyfyrio a thrafod darlleniadau o'r ysgrythur. Mae'r tîm (Clerigion, Swyddog Plant yr Eglwys a'r Warden) yn cyfarfod cyn y gwasanaeth i gynllunio.

Mae sesiynau Caffi Eglwys yn seiliedig ar themâu darlleniadau'r dydd o'r Efengyl neu ar Ŵyl arbennig (er enghraifft, y Cynhaeaf (Hydref), Sul y Cofio (Tachwedd), Cristingl a'r Nadolig (Rhagfyr), Sul y Blodau (Ebrill) ac yn cynnwys gweithgareddau ymarferol y gall y gynulleidfa i gyd gymryd rhan ynddynt a chyfle bob tro i ysgrifennu gweddïau (sy'n annog myfyrdod): taflenni gwaith priodol i oed, gweithgareddau crefft, sgwrsio dros luniaeth a chanu emynau (fel rheol emynau sy'n gyfarwydd i'r plant).



Fel y gellid disgwyl, cafwyd adolygiadau cymysg i'r gwasanaeth gan aelodau hŷn y gymuned addoli, ond roedden nhw'n gwybod hefyd bod angen arloesi i gysylltu â'r genhedlaeth iau. Ac mae'n gweithio, mae llawer mwy o blant, a theuluoedd ifanc yn gyffredinol, yn bresennol ar yr ail Sul.

Ond does dim yn anodd am yr hyn mae Llanddunwyd yn ei wneud. Gallai ddigwydd ym mhob cyd-destun gwledig ledled Cymru. Roedd pobl yn eistedd o gwmpas byrddau yn hytrach na mewn rhesi'n wynebu'r blaen felly roedden nhw'n gallu siarad â'i gilydd, roedd mwy o gyswllt rhwng pobl, amgylchedd mwy anffurfiol, a chenedlaethau gwahanol. Roedd rhaid cael rhywfaint o gyfaddawd ar ran yr aelodau rheolaidd, ond eto roedd ymrwymiad i sicrhau sefyllfa lle'r oedd pawb o bob oed yn addoli gyda'i gilydd. Y peth hawsaf fyddai ei gynnal yn ystod y prynhawn ond trwy beidio â gwneud hynny gwelwyd bod rhai plant a theuluoedd ifanc yn dechrau mynychu'r trydydd Sul cymun i deuluoedd hefyd. Mae'r niferoedd ar gynnydd yn y gwasanaethau i gyd,

# CURAD NEWYDD YN LLAI

***E-bost gan gurad newydd:***

**Ar ôl cael fy annog gan hyfforddiant ar sut i ddechrau clwb allgymorth i blant yn ein cwrs preswyl diwethaf i Weinidogion Trwyddedig Newydd, cyflwynias syniad uchelgeisiol dros ben i un o'r eglwysi lle rwy'n gurad, sef Sant Martin, Llai.**

Mae gweinidogaeth i blant wedi bod yn gryn her iddyn nhw a phrin yw'r cysylltiad â phlant yno ers rhai blynyddoedd. Beth bynnag, penderfynwyd torchi llawes, a chynnal diwrnod cyfan o weithgareddau, crefftau ac adrodd straeon, a rhannu cinio hefyd er mwyn adrodd hanes y Pasg.

Aethom ati i hysbysebu'n helaeth gan weddio y byddai Duw yn cymell gwirfoddolwyr. Fel ateb i'r weddi, daeth gwraig i'n Cwrs 'Dechrau' a oedd wedi cynnal cynlluniau chwarae ar gyfer cyngor Norfolk tan y llynedd! Mae'n Gristion o argyhoeddiad erbyn hyn ac wedi gwneud heddiw yn bosibl, ynghyd â 12 o wirfoddolwyr eraill.

Roedd dros 50 o blant yn bresennol a sawl oedolyn am y diwrnod cyfan, a galwodd ambell un hŷn heibio hefyd. Roedd yn anhygoel. Rwy'n teimlo ein bod wedi hel y llwch oddi ar Sant Martin!

O ganlyniad mae'r eglwys bellach wedi bwrw iddi i gynnal sawl gweithgaredd tebyg gyda'r nod o gynnal digwyddiad rheolaidd i blant maes o law. Weithiau, dim ond hwb bach sydd ei angen.



# CRYNODEB YSTADEGOL 2018

## Aelodaeth

### Tabl Gwybodaeth 1: Cyfranogiad ym Mywyd y Plwyf ar gyfer 2018 a 2017.

| | | 2018 | 2017 | % newid |
|---|---|---|---|---|
| Cymunwyr | *Pasg* | **46,163** | 48,986 | -6 |
| | *Penecost* | **25,576** | 27,099 | -6 |
| | *Nadolig* | **46,052** | 48,186 | -4 |
| | *Y Drindod III* | **24,982** | 26,362 | -5 |
| Cyfartaledd Presenoldeb - dros 18 | *Suliau* | **26,110** | 27,448 | -5 |
| | *Dyddiau'r wythnos yn unig* | **4,243** | 5,234 | -19 |
| Cyfartaledd Presenoldeb - dan 18 | | **5,385** | 5,420 | -1 |
| Cofrestr Etholwyr | | **42,441** | 44,875 | -5 |
| Bedyddiadau | | **4,996** | 5,351 | -7 |
| Bedydd Esgob | | **712** | 546 | 30 |
| Priodasau | | **2,223** | 2,466 | -10 |
| Angladdau | | **6,097** | 6,188 | -1 |

# CRYNODEB YSTADEGOL 2018

## Cyllid

### Tabl Gwybodaeth 2: Crynodeb Taleithiol o Gyllid Plwyfi ar gyfer 2018 and 2017.


| Incwm | 2018 £k | 2017 £k |
|---|---|---|
| Rhoi Wedi ei Gynllunio | **10,487** | 10,905 |
| Casgliadau Rhydd | **2,829** | 2,903 |
| Rhoddion | **3,061** | 3,200 |
| Cenhadaeth | **574** | 563 |
| Ad-daliadau Treth | **2,724** | 2,814 |
| Rhoddion Etifeddol a Dderbyniwyd | **2,490** | 1,804 |
| Grantiau | **3,736** | 5,046 |
| Codi Arian | **5,014** | 5,127 |
| Ffioedd | **2,507** | 2,487 |
| Buddsoddiadau | **1,947** | 1,731 |
| Adnoddau Eraill sy'n Dod i Mewn | **3,234** | 4,469 |
| | | |
| **Cyfanswm Incwm** | **38,606** | 41,045 |

| Gwariant | 2018 £k | 2017 £k |
|---|---|---|
| Cyfran y Plwyf | **16,395** | 16,533 |
| Treuliau Clerigwyr | **1,124** | 1,129 |
| Cefnogaeth Arall i'r Weinidogaeth | **288** | 301 |
| Cynnal Gwasanaethau | **1,505** | 1,537 |
| Treuliau Cyffredinol y Plwyfi | **2,122** | 2,016 |
| Cynnal a Chadw Eglwysi | **5,395** | 6,054 |
| Cynnal a Chadw Eiddo | **2,551** | 2,641 |
| Gwariant Eithriadol ar Eiddo | **4,523** | 6,216 |
| Grantiau Plwyf | **814** | 663 |
| Grantiau Cartref/Byd | **943** | 982 |
| Taliadau Cyfalaf | **992** | 1,217 |
| Costau Codi Arian | **817** | 612 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **37,474** | 39,907 |


# CRYNODEB YSTADEGOL 2018

## Cyllid

### Ffigur Gwybodaeth 3: Rhoi Uniongyrchol Wythnosol i bob Mynychwr ar y Sul.





### Ffigur Gwybodaeth 4: Gwariant Plwyfi 2018.



## CRYNODEB YSTADEGOL 2018

### Sut mae'r Eglwys yng Nghymru yn Cael ei hariannu?

**Ffigur Gwybodaeth 5: Sut mae'r Eglwys yng Nghymru'n cael ei hariannu yn 2018**




Mae'r plwyfi yn chware rôl fawr wrth helpu i alu costau rhedeg yr Eglwys yng Nghymru. Ond, mae'n bwysig atgoffa ein hunain yn achlysurol sut mae cyfraniad y plwyfi yn ffitio yn y darlun taleithiol ehangach.

Mae **Ffigwr Gwybodaeth 5** yn ddelwedd ar ffurf diagram o'r ffordd y mae'r Eglwys yng Nghymru yn cael ei hariannu yn 2018. Esgobaethau sy'n gyfrifol am dalu cost cyflogau clerigwyr. I'w helpu i wneud hynny mae esgobaethau yn derbyn cyllid o'r plwyfi (trwy gyfran y plwyfi) a Chorff y Cynrychiolwyr (trwy'r Grant Bloc).

Bydd aelodau yn sylwi bod y Corff y Cynrychiolwyr ac (yn gyffredinol) yr esgobaethau ar hyn o bryd yn dosbarthu mwy yn flynyddol nag y maent yn ei dderbyn o incwm.

Mae gan y plwyfi, esgobaethau a chorff y cynrychiolwyr hefyd feysydd gwariant pwysig eraill. Y brif elfen yn "Cefnogaeth Arall i Weinidogaeth" Corff y Cynrychiolwyr yw cost yr elfen gwasanaeth yn y gorffennol o Gynllun Pensiwn yr Offeiriaid. Mae "Cefnogaeth Ariannol Arall" gan blwyfi yn cynnwys cefnogaeth i'r weinidogaeth (e.e. treuliau clerigwyr a chostau gwasanaethau) nad ydynt yn cael eu cynnwys yng nghyfran y plwyf.

1898